

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynhadledd ddydd Iau, 13 Mai 2021 am 10.00am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Rachel Flynn, Merfyn Parry, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Graham Timms (Is-gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd).

**Aelodau'r Cabinet** – Yr Arweinydd y Cynghorydd Hugh Evans, Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol, Y Cynghorydd Mark Young Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel a'r Cynghorydd Brian Jones Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd.

**Arsylwyr** – Y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies, Alan James a Gwyneth Kensler.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a Parth Cyhoeddus (GB), Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu (TD), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (SJ a SLW).

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor a Tina Jones.

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

#### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater bryd.

#### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021.

Ni chodwyd unrhyw fater mewn perthynas â'r cofnodion.

Felly:

**Penderfynwyd: - derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.**

Mewn ymateb i gais gan yr Arweinydd, a chyda cytundeb yr holl Aelodau Arweiniol a swyddogion perthnasol, dywedodd y Cadeirydd y byddai trefn y busnes ar y rhaglen yn cael ei amrywio. Byddai eitem busnes rhif 6 ' Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr - Cynnig i Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen' yn cael ei gyflwyno cyn eitem busnes rhif 5 'Y Newyddion Diweddaraf am Gynnydd y Model Gweithredu Newydd ar gyfer Gwastraff ac Ailgylchu'.

**5 ASESIAD LLETY SIPSIWN A THEITHWYR – CYNNIG I SEFYDLU GRŴP TASG A GORFFEN**

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cadeirydd ac i aelodau'r Pwyllgor am addasu trefn y rhaglen.

Fe arweiniodd yr Arweinydd, Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel, Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'r Rheolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yr aelodau trwy gyflwyniad Powerpoint.

Fe atgoffwyd yr Aelodau bod nifer o adroddiadau am lety Sipsiwn a Theithwyr wedi cael eu cyflwyno i'r pwyllgor Craffu ar sawl achlysur. Fe nodwyd bod yr Aelodau Arweiniol a swyddogion wedi rhoi sylw i nifer o'r pryderon oedd wedi cael eu codi gan gynghorwyr. Roedd bwrdd prosiect wedi cael ei sefydlu oedd yn cynnwys Aelodau Arweiniol a swyddogion er mwyn ymgysylltu ag aelodau cyn gynted â phosibl. Cafwyd eglurhad mai ffocws y drafodaeth oedd sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen cytbwys i gynorthwyo gyda'r aseiad llety. Roedd y Bwrdd eisiau creu proses glir er mwyn sicrhau bod gan aelodau Craffu ddealltwriaeth eglur o'r broses cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Rhodddwyd cefndir sydyn i'r aelodau. Cafodd yr aseiad llety diwethaf ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn 2017, oedd yn golygu ei bod hi'n amser i fynd trwy'r broses eto.

Pwysleisiodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mai dyletswydd yr awdurdod oedd cwblhau aseiad llety bob 5 mlynedd. Aseiad o anghenion o ran tai ydi'r Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr. Roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi bod nifer o Sipsiwn a Theithwyr angen llety sy'n addas yn ddiwylliannol. Byddai'r Aseiad yn asesu'r angen ar gyfer teuluoedd yn Sir Ddinbych a byddai'n asesu'r angen ar gyfer teuluoedd sy'n teithio trwy'r awdurdod. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gosod y broses methodoleg i gwblhau'r Aseiad.

Fe atgoffwyd yr Aelodau bod y Cynllun Datblygu Lleol presennol wedi cael ei fabwysiadu yn 2013. Roedd newidiadau sylweddol yn yr awdurdod wedi cael eu harsylwi gan olygu bod y CDLI presennol wedi dyddio. Roedd ymchwil a gwaith i ddiweddarau a chreu CDLI newydd wedi dechrau er mwyn cynnwys yr Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd. Pwysleisiwyd bod yr Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn ddogfen gyfreithiol oedd ei hangen ar gyfer y CDLI newydd.

Cafodd yr Aelodau ddadansoddiad o'r gwaith oedd wedi'i ddechrau yn unol â cheisiadau ac awgrymiadau'r aelodau.

Fe arweiniodd yr Aelod Arweiniol yr aelodau trwy'r wybodaeth a ddarparwyd am rôl arfaethedig y Grŵp Tasg a Gorffen a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau. Pwrpas y Grŵp Tasg a Gorffen fyddai cefnogi a chynghori'r Cabinet a bwrdd prosiect yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr am ddatblygiad Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd. Cafodd amcanion y grŵp a chwmpas ei waith arfaethedig ei amlinellu. Byddai casgliadau'r canfyddiadau ac unrhyw argymhellion arfaethedig yn cael eu hadrodd i'r pwyllgor Craffu Cymunedau i'w trafod a byddai'r Pwyllgor yn fformiwleiddio argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet.

Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion ac Aelod Arweiniol am eu gwaith blaenorol a'u gwaith parhaus yn datblygu'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd, Aelod Arweiniol a swyddogion am gydnabod pryderon y pwyllgor Craffu ac am ddarparu rhagor o wybodaeth mewn ymateb i'r pryderon hynny. Wrth drafod yr adroddiad, ymhelaethodd y swyddogion ac Aelodau Arweiniol ar y materion canlynol:

- Y ddeddfwriaeth oedd yn cynnwys yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr fel elfen statudol o ddatblygu'r CDLI.
- Yr amserlen i gyflwyno'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru oedd mis Chwefror 2022. Byddai'r CDLI presennol yn aros yn ei le nes bod CDLI cytunedig newydd yn cael ei gymeradwyo.
- Roedd yr Asesiad presennol wedi nodi bod angen safle preswyl. Roedd yr asesiad hwnnw dal i fod yn ei le. Byddai'r asesiad newydd yn rhoi'r newyddion diweddaraf am yr hyn oedd ei angen yn Sir Ddinbych. Rhoddwyd eglurder y gallai unrhyw unigolyn yn yr awdurdod ofyn i'r awdurdod am gefnogaeth.
- Roedd y broses roedd y swyddogion yn ei gynnig yn ddull cadarnhaol. Roedd aelodau yn cytuno ei bod yn sefyllfa mwy proffesiynol i symud ymlaen.
- Byddai'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar ôl i'r broses gael ei chwblhau gyda chefnogaeth y Grŵp Tasg a Gorffen a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.
- Fe bwysleisiwyd bod Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn asesiad o anghenion. Dim ond ar ôl i'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr gael ei gwblhau y byddai'r broses o ddewis safleoedd posibl i fynd i'r afael ag anghenion yn dechrau, a dim ond os oedd angen yn cael ei nodi.
- Roedd angen Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr er mwyn symud y broses CDLI yn ei blaen.  
Teimlwyd mai'r cam cyntaf fyddai cynnal yr Asesiad a'i gyflwyno i'r Cabinet a Llywodraeth Cymru. Yn dilyn y broses honno, byddai angen trafodaeth bellach am yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr a'r CDLI.

Bu i'r Pwyllgor:

**Benderfynu: i gytuno -**

- (i) i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Craffu i gynorthwyo gyda, a llywio gwaith ar yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd; a***
- (ii) gytuno ar y Cylch Gorchwyl drafft i'r grŵp sydd ynghlwm fel Atodiad 1 yr adroddiad.***

## **6 YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYNNYDD Y MODEL GWEITHREDU NEWYDD AR GYFER GWASTRAFF AC AILGYLCHU**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, yr adroddiad ac atodiadau (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Roedd y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu gydag o.

Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylchedd mai mis Hydref 2019 oedd y tro diwethaf roedd y Pwyllgor wedi cael adroddiad. Yn y cyfarfod hwnnw, gofynnodd yr aelodau am adroddiad dilynol oedd yn cynnwys diweddariad am brosiectau peilot yn yr awdurdod ac i archwilio gwybodaeth am fanteision cynllun gwireddu buddion. Fe eglurodd y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol bod y prosiect yn gymhleth oedd â sawl elfen.

Rhoddodd y Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu grynodedb o'r cynllun gwireddu buddion a diweddariad am y cynllun cyfathrebu roedd yr aelodau wedi gofyn amdano. Fe lansiodd y prosiect yn wreiddiol er mwyn ceisio rheoli costau gwastraff cynyddol a pharatoi i symud i lasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu, gyda dyhead i fod y wlad orau am ailgylchu.

Mae'r prosiect wedi sylwi ar ddau brif fantais. Y prif fantais cyntaf oedd perfformiad ailgylchu disgwylledig gan y gwasanaeth a oedd bellach rhwng 64% a 68%, er ei fod ychydig yn is na'r targed statudol o 70%, rhagwelir y byddai'r targed hwn yn cael ei gyrraedd erbyn 2024/25 gyda gwelliannau mewn technoleg ac anogaeth bellach gan y Llywodraeth. Cadarnhawyd y cafwyd cymeradwyaeth i brynu technoleg newydd gan roi rhagor o ddata i swyddogion ynglŷn â chasgliadau. Pwysleisiodd mai'r bwriad oedd gosod microsglodyn ar y biniau gweddilliol a fydd yn cael eu cyflenwi fel rhan o newid y gwasanaeth yn 2023. Cafwyd eglurhad bod gwaith gyda Llywodraeth Cymru ar brosiect newydd i ailgylchu gwastraff hylendid amsugol wedi dechrau. Fe eglurwyd bod tendr wedi cael ei hysbysebu ar gyfer cyfleuster ailgylchu o'r natur hwn yn yr awdurdod.

Mantais pwysig arall yn ymwneud â chynyddu cyfraddau ailgylchu yn y dyfodol oedd y cynllun estynedig cyfrifoldeb cynhyrchwyr arfaethedig. Nod y cynllun yn y dyfodol oedd sicrhau bod gweithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr yn gyfrifol am dalu'r gost i gasglu ailgylchu a gwastraff o'u cynnyrch. Byddai sefydliad yn cael ei sefydlu er mwyn rhoi cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer casglu, gwaith addysg, gwaith ymchwil a gorfodaeth. Byddai safon y deunydd ailgylchadwy a gasglwyd yn penderfynu faint o gyllid ad-daliad byddai Sir Ddinbych yn ei dderbyn. Trwy wahanu'r deunydd ailgylchadwy a gasglwyd byddai ansawdd y gwastraff yn cael ei gynnal.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu bod dau brosiect ailgylchu wedi cael eu dewis fel treialon posibl i osod microsglodyn ar gadis gwastraff bwyd ac er mwyn asesu ymddygiad preswylwyr. Mae'r canfyddiadau hyd yn hyn mewn cysylltiad â'r prosiect yng ngorllewin y Rhyl wedi dod i'r casgliad bod sylw yn y wasg am y prosiect wedi effeithio ar faint o dunelli a gasglwyd hyd yn oed ar ôl i gyfnod cychwynnol y cynllun peilot ddod i ben. Roedd y sylw yn y wasg wedi annog preswylwyr i ofyn am gadis bwyd ac i fod yn fwy ymwybodol o ailgylchu gwastraff

bydd. Byddai'r hyn sydd wedi cael ei ddysgu yn cael ei fabwysiadu mewn cynlluniau peilot yn y dyfodol i ficrosglodynnu biniau.

Yr ail brosiect oedd 'Cystadlu â'r Cymdogion', yn anffodus bu'n rhaid stopio'r prosiect yma oherwydd pandemig Covid-19. Nod yr ymgyrch yma oedd annog preswylwyr i ailgylchu deunyddiau roeddynt wedi arfer eu taflu mewn i'r biniau du. Fe fabwysiadwyd proses addysgiadol 3 cham. Roedd bwriad i gynnal yr ymgyrch yma yn ardal gorllewin y Rhyl eto.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y papurau a'r diweddariad. Roedd y Cadeirydd wedi derbyn cwestiwn gan aelod o'r cyhoedd ac fe ofynnodd y cwestiwn i'r swyddogion. Roedd y preswilydd yn bryderus y byddai bagiau baw cŵn yn cael eu taflu i'r biniau du gan arwain at arogl amhleserus iawn gan mai bob 4 wythnos y byddent yn cael eu casglu. Gofynnodd y preswilydd beth fyddai'r weithdrefn ar gyfer gwastraff anifeiliaid yn y dyfodol.

Roedd y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn cydnabod pryderon preswylwyr, byddai'r sefyllfa bresennol o roi gwastraff anifeiliaid mewn bag ac yn cael ei daflu i'r gwastraff bin du yn parhau. Nid oedd y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn gwybod am unrhyw awdurdod oedd yn cynnig gwasanaeth gwastraff anifeiliaid. Yn ei farn o, ni fyddai'n ymarferol, fe fyddai'n anodd iawn cyflogi unigolion i gasglu gwastraff anifeiliaid. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol bod biniau du yn arogl. Petai preswylwyr yn glanhau'r biniau pan fo angen, fe fyddai hynny'n lleihau arogleuon.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, ac roedd yn ddiolchgar am y cwestiwn gan aelod o'r cyhoedd. Yn dilyn y cyflwyniad a thrafodaethau, ymhelaethodd y swyddogion ac Aelodau Arweiniol ar y materion canlynol:

- Casyn allanol y bagiau y gellir eu hail ddefnyddio fyddai'r unig fag â meicrosglodyn.  
Byddai'n plygu ac fe ellir ei storio'n dwt, yna byddai modd darparu bagiau llai ar gyfer mathau unigol o ailgylchu. Ar y diwrnod casglu, byddai'r bagiau llai yn cael eu gosod yn y casyn allanol i atal adar rhag cael gafael ar y gwastraff, neu ei atal rhag chwythu i ffwrdd. Byddai'r meicrosglodyn yn galluogi swyddogion i gynnig cefnogaeth a gwybodaeth addysgiadol. Byddai ganddynt ddewis o fagiau neu focsys. Cadarnhaodd y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol y byddai dewisiadau gwahanol yn cael eu cynnig ar gyfer anghenion gwahanol preswylwyr. Cafodd yr Aelodau wybod y bydd aelwydydd sydd methu storio ailgylchu neu wastraff yn cael gwasanaeth casglu amlach er mwyn lleihau faint o wastraff sy'n cronni mewn gofod cyfyngedig.
- Fe allai fod yn anodd cynnal cyfnod prawf ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau gan y byddai'n anodd cynnal dau fodel casglu gwahanol ar yr un pryd. Efallai y gellir edrych ar ymchwiliad pellach i dreialu systemau gydag aelodau'r Pwyllgor yn y dyfodol. Fe gadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol drafodaethau gyda swyddogion a'r Cydlynnydd Craffu i weld sut y gellir trefnu cyfnod prawf i'r aelodau.

- Roedd swyddogion yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd pobl ddiamddiffyn yn deall y system ailgylchu a chasglu. Cafwyd cadarnhad y byddai esemptiad yn cael ei roi ar waith petai angen.
- Byddai deunydd cyfathrebu gyda phreswylwyr yn manylu am y newid i gynllun y gwasanaeth.  
Roedd yn rhoi'r cynllun o newid i aelodau yn cynnwys cyfnewid biniau aelwydydd. Cyn i'r gwasanaeth newid byddai'r gwasanaeth cynnyrch hylendid amsugol yn cael ei lansio. Byddai'r gwaith o gyfathrebu gyda phreswylwyr yn dechrau yng ngwanwyn 2023. Byddai aelwydydd cymunedol yn trosglwyddo drosodd yn gyntaf.
- Y cerbyd a ffefrir ar gyfer y gwaith casglu fyddai'r *e-collect 26Tonne RCV*. Pan fyddai angen diweddarau'r cerbydau, byddai pob opsiwn, yn cynnwys cerbydau ecogyfeillgar, yn cael eu hystyried. Roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r gwaith o brynu cerbydau, yn enwedig cerbydau casglu ymyl palmant. Roedd treialu cerbydau trydan ar draws Gogledd Cymru fod i ddechrau. Byddai'r data a gesglir o'r treialon hynny yn cefnogi faint o gerbydau trydan y byddai Sir Ddinbych yn eu harchebu.
- Roedd y gostyngiad cost isafswm i'r gwasanaeth o £500,000 yn cynnwys cost benthyca darbodus.  
Roedd swyddogion yn obeithiol y gallai'r arbediad fod yn fwy. Os oedd aelodau'n teimlo y byddai'n fuddiol, byddai modd darparu dadansoddiad mwy manwl o'r cyfrifiadau ariannol.
- Bydd y farchnad ar gyfer deunyddiau ailgylchadwy yn cael effaith ar y model busnes.  
Roedd yr incwm a grëir trwy werthu gwastraff ailgylchadwy y cyfeirir atynt yn yr adroddiad wedi cael ei greu trwy ddadansoddi'r farchnad, ond fe allai hyn newid. Byddai'r effaith o leiaf yr un mor fawr petai'r model casglu yn aros heb ei newid. Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn talu am wastraff ailgylchadwy sy'n cael ei gymryd i ffatri i gael ei sortio. Petai gwerth ar y farchnad ar gyfer deunyddiau ailgylchadwy yn newid, roedd y gost o sortio gwastraff hefyd yn debygol o newid. Teimlwyd y byddai'r model newydd yn amddiffyn y gwasanaeth rhag newidiadau i'r farchnad yn well na'r gwasanaeth presennol. Nid oedd unrhyw arbedion a arsylwyd wedi cael eu tybio, felly nid oeddynt wedi cael eu cynnwys yng nghynllun ariannol y dyfodol.
- Roedd cyflwyno gwasanaeth masnachol a chymunedol cynnar yn cynnwys ysgolion. Byddai'r model newydd yn cael ei gyflwyno i ysgolion cyn iddo gael ei gyflwyno i grwpiau preswyl eraill. Byddai cefnogaeth i sefydlu gorsafoddd ailgylchu mewn ysgolion i addysgu disgyblion i wahanu ailgylchu yn cael ei gynnig i ysgolion. Y bwriad oedd gweithio gydag ysgolion i addysgu a chefnogi staff a disgyblion i wneud y mwyaf o ailgylchu mewn ysgolion. Roedd CSDd yn gwasanaethu'r casgliad gan y mwyafrif o ysgolion yn yr awdurdod.
- Roedd gweithwyr rheng flaen yn gweithio'n dda gyda'r cyhoedd ac roedd ganddynt wybodaeth ynglŷn â sut i reoli sefyllfaoedd anodd. Roedd hyfforddiant rheoli gwrthdaro yn cael ei gynnig i staff hefyd. I gefnogi staff, bydd taflenni a gwybodaeth yn cael ei gynnig i'r cyhoedd er mwyn lleihau gwrthdaro a chynorthwyo preswylwyr i ddeall.

- Roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn dysgu o'u profiadau nhw wrth iddynt gyflwyno newid gwasanaeth.
- Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi gosod y newid ar awdurdodau lleol. Roedd Sir Ddinbych wedi penderfynu newid y model ac wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am gefnogaeth.
- Roedd swyddogion wedi mynychu'r Fforwm Landlordiaid i sôn am y cynlluniau a'r newidiadau arfaethedig. Cafodd y model newydd ei gyflwyno yn y cyfarfod Fforwm diwethaf. Roedd Landlordiaid Gorrlewin y Rhyl wedi cael gwybod am y newidiadau a'r treialon a fyddai'n cael eu cynnal yn y Rhyl. Y landlord sydd yn gyfrifol am sicrhau fod yna gyfleusterau ailgylchu cywir ar gyfer tenantiaid.
- Mae'r problemau yn safle depo cynllunio Dinbych bellach wedi cael eu datrys. Mae'r gwaith bellach yn gallu mynd yn ei flaen. Nid oedd yna bryder am effaith traffig ar gyfer yr ardal.
- Nid oedd y bagiau a ddarparwyd ar gyfer baw cŵn yn bioddiraddiadwy yn y gorffennol. Fel gwasanaeth ni fyddai'r bagiau'n cael eu rhoi i berchnogion anifeiliaid. Cyfrifoldeb perchennog yr anifail oedd prynu bagiau gwastraff.
- Byddai rhagor o ymchwil i elusennau a'r gefnogaeth y gallai'r awdurdod ei gynnig yn parhau. Gwasanaeth aelwyd oedd y gwasanaeth presennol, i gyflwyno polisi i gynnwys casgliad gwastraff elusennol a fyddai'n gost i'r awdurdod. Byddai cyfathrebu gydag elusennau i drafod dewisiadau yn cael ei gynnig.

Gofynnodd y Cadeirydd bod gohebiaeth reolaidd yn cael ei roi i Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol San Steffan i'w hysbysu am y newidiadau oedd ar ddod yn yr awdurdod. Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr ac ystyrlon a'r ymateb manwl i gwestiynau a phryderon yr aelodau.

Bu i'r Pwyllgor:

**Benderfynu: - ar ôl rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth a ddarparwyd, ac yn amodol ar yr arsylwadau uchod -**

- (i) derbyn yr wybodaeth mewn cysylltiad â'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn gan y Tîm Prosiect yn cyflwyno Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd i breswylwyr erbyn haf 2023;**
- (ii) cefnogi'r Cynllun Gwireddu Buddion (Atodiad II) a gofyn i Bennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol dracio cyflawniad y buddion drwy'r Cynllun Gwasanaeth Blyneddol o 2023/24 ymlaen;**
- (iii) bod y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn cyflwyno adroddiad yn y dyfodol i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar ganlyniadau'r prosiect peilot yng Ngorllewin y Rhyl (defnyddio microsglodion mewn cynwysyddion gwastraff) a Bron y Crest (newid gwasanaeth biniau cymunedol);**
- (iv) bod gwybodaeth fanwl bellach am y goblygiadau ariannol i'r Cyngor am y newid model ar gyfer gwasanaethau yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor; a**

**(v) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad VII) fel rhan o'i ystyriaethau.**

## **7 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU**

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â materion perthnasol.

Bu trafodaeth ynghylch y materion canlynol -

- Cadarnhawyd yr eitemau a restrwyd ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y cyfarfod dilynol ar 01 Gorffennaf 2021. Cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu y byddai'r ddau eitem am lifogydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd Gorffennaf a mis Medi yn y drefn honno.
- Roedd y Cadeirydd wedi cytuno i ohirio'r eitem ar 'Cyfrifoldebau Rheoli Llifogydd mewn perthynas â Ffos Y Rhyl a Gwter Prestatyn' yn y rhaglen tan fis Medi 2021.
- Roedd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi cyfarfod ac wedi cytuno y gellir cynnwys dau adroddiad yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor.  
Sef:
  - 1- Adborth a Gafwyd mewn ymateb i Arolwg Tenantiaid Tai y Cyngor
  - 2- Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Cyngor Sir Dinbych i lifogydd yn y sir ym mis Ionawr 2021.
- Efallai y bydd angen cyfarfod arbennig o'r pwyllgor i dderbyn adroddiad gan y Grŵp Tasg a Gorffen ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr ym mis Gorffennaf. Bydd gwahoddiad a dyddiad ar gyfer y cyfarfod yn cael ei gyhoeddi yn nes at y dyddiad os bydd angen.
- Cytunodd y Cydlynnydd Craffu i siarad gyda Phennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Rheolwr Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu er mwyn trefnu dyddiad ar gyfer adroddiad dilynol am y model Gwastraff ac Ailgylchu.
- Gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno unrhyw ffurflenni cynnig ynghylch pynciau i graffu arnynt.
- Cafodd yr aelodau wybod am yr anawsterau technegol presennol wrth hwyluso cyfarfod briffio cyn cyfarfod.  
Os oedd aelodau yn teimlo bod angen cyfarfod briffio cyn cyfarfod, fe ddylent gysylltu â'r Cadeirydd a'r Cydlynnydd Craffu i drafod.

**Penderfynwyd: - yn amodol ar y newidiadau a'r ychwanegiadau a amlinellir yn yr adroddiad, ac y cyfeirir atynt uchod, cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor.**

## **8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei fod wedi mynychu cyfarfod cyntaf Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Perygl Llifogydd a Pherchnogion Glannau Afonydd. Bu'n gyfarfod cyntaf cynhyrchiol iawn gyda phob sefydliad a wahoddwyd yn bresennol, gan fynegi eu hawydd i gydweithio er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy er mwyn rheoli a lleihau'r perygl o lifogydd.



**Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.**